


## Cau ar gyfer gwyliau hanner tymor

Rydym yn cau heddiw ar gyfer gwyliau hanner tymor. Gobeithiwn fod yr hanner tymor cyntaf hwn wedi bod yn un llwyddiannus o safbwynt setlo i mewn i ddosbarthiadau newydd. Gobeithiaf i chi gael cyfarfodydd rhieni da ar ddechrau'r wythnos. Cofiwch gysylltu â mi os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn.

Byddwn yn ail-agor ar ddydd Llun, Tachwedd 3ydd.

## *Closing for half-term holiday*

*We are closing today for the half-term holidays. We hope that this first half-term has been a successful one in terms of settling into new classes. I hope you had good parents' meetings at the start of the week. Please remember to contact me if you have any concerns about your child's wellbeing or educational development.*

*We will re-open on Monday, November 3rd.*

95.6%


## Presenoldeb

Presenoldeb yr hanner tymor hwn oedd 95.6%
Gweler y posteri isod yn egluro beth mae presenoldeb da yn ei olygu ar gyfer eich plentyn.

## *Attendance*


*Attendance this half term was 95.6%*
*Please see posters below explaining what good attendance means for your child.*










## Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro

## *Gŵyl Cerdd Dant Festival*

**8/11/2025**

| Cystadleuaeth / Competition | Rhagbrawf / Prelim | Llwyfan / Stage |
|---|---|---|
| Parti Llefaru | 8:00-9:00yb (Ystafell Gerdd, Penweddig) | 1:35 (Canolfan Hamdden Plascrug L.C) |
| Parti Dawnsio | 8:00-9:00yb (Neuadd, Penweddig) | 10:30 (Canolfan Hamdden Plascrug L.C) |
| Parti Cerdd Dant | 9:00-10:00yb (Ystafell Gerdd, Penweddig) | 11:25 (Canolfan Hamdden Plascrug L.C) |
| Parti Alaw Werin | 10:00-11:00yb (Ystafell Staff, Penweddig) | 12:30 (Canolfan Hamdden Plascrug L.C) |



**14/11/2025**

## Plant Mewn Angen

Mae'r Pwyllgor Dyngarol wedi penderfynu cynnal 'Sgen ti dalent?' eleni eto yn yr ysgol ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen. Byddwn yn dilyn yr un fformat : bydd cyfle i bob plentyn berfformio unrhyw dalent o flaen y dosbarth yn gyntaf, yna bydd pleidlais pa act fydd yn perfformio o flaen gweddill yr ysgol. Ewch ati i ymarfer eich talent dros y gwyliau hanner tymor yn barod!

## *Children in Need*

*The Humanitarian Committee has decided to hold a have-a-go talent acts 'Sgen ti dalent?' again this year at the school on Children in Need Day. We will follow the same format: every child will have the opportunity to perform any talent in front of the class first, then there will be a vote on which act will perform in front of the rest of the school. How about practicing your talent over the half term holidays?!*

---

## Creu torchau - Archebu ymlaen llaw

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn trefnu digwyddiad Nadoligaidd ym mis Tachwedd i oedolion yn unig.

Ymunwch â nhw am noson Nadoligaidd yng nghwmni Claire Roberts fydd yn dangos sut i greu torch eich hunan yn barod ar gyfer y Nadolig. Mae tocynnau yn £35 (i gynnwys gwydraid o Prosecco a mins pei), a bydd raffl ar gael ar y noson i ennill darn canol (centre-piece) Nadoligaidd.
I gadw lle dilynwch y linc isod i docynnau:

https://buytickets.at/crhaysgolgymraegaberystwythpta1/1911989

## *Wreath making - Book in advance*

*The Parent and Teacher Association is organising a Christmas event in November for adults only.*

*Join them for a festive evening with Claire Roberts, who will demonstrate how to make your own wreath ready for Christmas. Tickets cost £35 (including a glass of Prosecco and a mince pie), and there will be a raffle on the night to win a Christmas centrepiece.*

*To reserve your place, follow the link below for tickets:*

https://buytickets.at/crhaysgolgymraegaberystwythpta1/1911989

---




## Holiadur Iechyd a Lles – Bl.4-6

Mi fyddwn yn gofyn i'ch plentyn lenwi arolwg byr yn yr ysgol am iechyd a lles fel rhan o'n rhwydwaith iechyd ysgolion cynradd – HAPPEN (www.happen-wales.co.uk). Gofynnir cwestiynau fel faint o ymarfer corff mae'r plentyn yn ei wneud, pa mor dda mae'n gallu canolbwyntio, pa weithgareddau yr hoffai roi cynnig arnynt yn yr ysgol a pha mor hapus mae'r plentyn yn yr ysgol a gyda'i ffrindiau. Defnyddir y canlyniadau i helpu ysgolion sicrhau bod ein disgyblion yn iachach ac yn hapusach.

Taflen Wybodaeth i Rieni - (happen-wales.co.uk)

## *Health and Wellbeing Questionnaire – Yr.4-6*

*We will ask your child to complete a short survey at school about health and wellbeing as part of our primary school health network - HAPPEN (www.happen-wales.co.uk). Questions are asked such as how much exercise the child does, how well they can concentrate, what activities they would like to try at school and how happy the child is at school and with their friends. The results are used to help schools ensure that our pupils are healthier and happier.*

Information Sheet - (happen-wales.co.uk)

---

## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – C.Rh.A


## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A

---



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:**

- Ffair Nadolig y G.Rh.A : Tachwedd 27ain
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 11eg
- Diwrnod olaf y tymor hwn : Rhagfyr 19eg

***Autumn term important dates:***


- *PTA Christmas Fayre : November 27th*
- *Christmas Concert : December 11th*
- *Last day of this term : December 19th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**24/10/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru






| Course | Location | Day | Time | Start Date | Course code |
|---|---|---|---|---|---|
| Entry 1 | Ysgol Comins Coch | Wednesdays | 13:15-15:.00 | 17/09/2025 | YC26-03-M1 |
| Foundation 1 | Ysgol Plascrug | Mondays | 09:00- 11:00 | 15/09/2025 | YC26-01-S1 |
| Canolradd 1 | Campws Gogerddan | Fridays | 13:15 - 15:00 | 19/09/2025 | YC26-05-C1 |







GWEITHDY LEGO: ABERYSTWYTH
Gweithdy Lego Cymraeg gan Cered yn ystod y gwyliau Hanner Tymor
Allwch chi ail-greu adeiladau hanesyddol Aberystwyth mas o Lego?
Addas i blant 6-66 oed a thu hwnt!
Y Bandstand | 1.00 - 4.00 | Dydd Mercher 29.10.25
Sesiwn galw heibio mewn cydweithrediad â Amgueddfa Ceredigion


GWEITHDY LEGO: ABERYSTWYTH
Welsh Language Lego workshop by Cered during the Half Term holidays
Can you help us recreate Aberystwyth's historic buildings out of Lego?
Welcome to kids age 6-66 and beyond!
Y Bandstand | 1.00 - 4.00 | Wednesday 29.10.25
Drop-in session in co-operation with Ceredigion Museum


Parti Cerfio Pwmpenni
Pumpkin Carving Party
29/10/25 2PM-4PM
Man Tyfu
PLASCRUG
Growing Space
Cerfio pwmpenni
Gweithgareddau Plant
Lluniaeth ysgafn
Pumpkin carving
Children's Activities
Refreshments
Bydd ambell i bwmpen ar gael gyda ni ond dewch a un eich hun rhag ofn!!!
We will have some pumpkins available but bring your own just in case!!!
Cyngor Tref Aberystwyth Town Council


GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board
Beth sy'n llunio eich iechyd a'ch lles?
Ymunwch â'r sgwrs a rhannwch eich barn
What shapes your health and well-being?
Join the conversation and share your views
Rydym am i bawb yn ein cymunedau fyw bywydau iach a llawen. Wrth i ni adfywio ein strategaeth, rydym yn gofyn am eich barn ar bedwar maes pwysig a all effeithio ar iechyd a lles.
• Sut mae ein rhwydweithiau cymorth lleol a rhwydweithiau cymorth yn ein helpu i aros yn iach – model cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant
• Sut rydym yn datblygu atebion digidol i wneud gofal yn haws i'w gyrchu a'i ddefnyddio – cymorth gofal iechyd digidol
• Cadw'n iach yn ein cymuned – cydbwyso gofal ysbyty a chymorth cymunedol
• Yr hyn sydd bwysicaf wrth wella adeiladau a mannau gofal iechyd – gwasanaethau clinigol ac ailddatblygu ysbytai
Sut i gymryd rhan
Rhannwch eich barn erbyn 28 Tachwedd 2025 trwy naill ai:
• Ewch i'n gwefan i ateb y cwestiynau a rhannu eich barn: https://www.dweudeichdweud.biphdd.cymru.nhs.uk/einstrategaeth
• Anfonwch eich barn atom drwy e-bost hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk neu ffonio 0300 303 8322, opsiwn 5 'gwasanaethau eraill' (cyfraddau galwadau lleol)
• Ymateb ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol lle byddwn yn rhannu'r cwestiynau hyn:
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
hywelddauhb
Sganiwch fi
We want everyone in our communities to live healthy, joyful lives. As we refresh our strategy, we are asking for your views on four important areas that can affect health and well-being.
• How our local area and support networks help us stay well – social model for health and well-being
• How we develop digital solutions to make care easier to access and use – digital healthcare support
• Staying well in our community – balancing hospital care and community support
• What matters most when improving healthcare buildings and spaces – clinical services and hospital redevelopment
How to get involved
Please share your views by 28 November 2025 either:
• Visiting our website to answer the questions and share your views: https://www.haveyoursay.hduhb.wales.nhs.uk/our-strategy
• Sending us your views by email hyweldda.engagement@wales.nhs.uk or telephone 0300 303 8322, option 5 'other services' (local call rates)
• Responding on our social media channels where we will be sharing these questions:
Hywel Dda Health Board
hywelddauhb
Scan me
Caffi - Cafe


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
MAGU PLANT YN Y BYD DIGIDOL
GWEITHDY 2 AWR
Dydd Iau 13eg Tachwedd
10.00yb - 12.00yp
CLWB RYGBI ABERAERON
Cefnogi gyda heriau a magu plant yn ddiogel ac yn ddoeth mewn oes ddigidol.
Byddwn yn edrych ar;
Awgrymiadau syml ac ymarferol
Cyngor hawdd ar apiau, preifatrwydd ac amser sgrin.
Diogelu eich plentyn ar-lein
Gweld peryglon fel cynnwys anniogel a cam-fanteisio
RHAID I CHI GYSYLLTU Â NI I GADW EICH LLE
Rachel: 07816 601 612
Zoe: 07977 636 751
rachel.cutler@ceredigion.gov.uk
zoe.jones@ceredigion.gov.uk
Clwb Rygbi Aberaeron
Parc Drefach
Drefach, Aberaeron
SA46 0JR
Creche ar gael


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
PARENTING IN A DIGITAL WORLD
2 HOUR WORKSHOP
Thursday 13th November
10am - 12pm
ABERAERON RUGBY CLUB
Supporting with challenges and raising children safely and smartly in a digital age
What we cover;
Simple, practical tips
Easy advice on apps, privacy, and screen time.
Protect your child online
Spot dangers like unsafe content and exploitation
BOOKING ESSENTIAL
Rachel -07816 601 612
Zoe - 07977 636 751
rachel.cutler@ceredigion.gov.uk
zoe.jones@ceredigion.gov.uk
Aberaeron Rugby Club
Parc Drefach
Drefach, Aberaeron
SA46 0JR
CRECHE PROVIDED


EVERYONE WELCOME!
FIREWORKS NIGHT!
Saturday 1st November
Presented by the UK's best Bright Sparks Firework Displays!
Come and join us at Clarach Bay Holiday Villages Bayside seafront, entertainment begins at 2pm and fireworks start at 7pm. This event is suitable for all ages and is open to everyone, Clarach Bay owners & guests and the public.
On site you can enjoy:
• Many delicious food and drink venues
• Children's Fun Fair
• Amusement Arcade
• Live entertainment
After the fireworks, all owners & guests (with valid wristbands) are invited to join us in the Showboat Club for an evening of entertainment.
End of Season Christmas Party
Saturday 29th November from 6pm
Celebrate in the Showboat Club at Clarach Bay Holiday Village with:
oasis forever
The UK's ultimate Oasis tribute band!
+ DJ Thomas & DJ Andrea
£10 per adult / £5 per child
Owner Special: Buy by 26th October for a full refund on attendance
Guests/Sublets: 50% refund if purchased before 26th October
Wear your best Christmas jumper and get ready for festive fun, live music and prizes for the children!
No refunds for tickets purchased after 26th October.
Vale Holiday Parks


Pantomime y morfaen fach
Little Mermaid Pantomime
Dydd Sadwrn Tachwedd 29ain
Saturday 29th November
£8 oedolyn / adult
£5 plentyn / child
2yp / 2pm
Yn Clwb y Showboat Clarach Bay Holiday Village
In the Showboat Club at Clarach Bay Holiday Village
• Bwyd a Diod ar gael I'w prynu / Food and Drink available to purchase
• Ystafell gemau ar agor / Games room open
• Parcio am ddim / Free Parking
Lleoedd cyfyngedig ar gael! / Limited Spaces!
Mae'n rhaid prynu tocynnau erbyn Dydd Llun Tachwedd 24ain. Gellir eu cadw am 48 awr cyn prynu. Mae angen gwneud y taliad yn y Dderbynfa gydag arian parod. / Tickets must be purchased by Monday 24th November, they can be reserved for 48 hours prior to purchase. Payment must be made in Reception with cash only.
Mae'n rhaid i bob plentyn gael ei gyd-fynd gan oedolyn ar bob amser / All children must be accompanied at all times.